# Ffurflen Asesu Addysgeg

CaBan

| Enw | Mentor | Ysgol | Dosbarth | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Mireinio'r addysgu**
- Rheoli'r amgylchedd....
- Asesu
- Gwahaniaethu

**Gwybodaeth am y pwnc a'i ddisgyblaeth**
- Y pedwar diben i ddysgwyr
- Gwneud y defnydd gorau o'r disgyblaethau pwnc
- Profiadau dysgu cyfunol
- Cyd-destunau o fywyd go iawn
- Y cynnydd mewn dysgu
- Themau trawsgwricwlaidd

**Dylanwadu ar Ddysgwyr**
- Heriau a disgwyliadau
- Gwrando ar y dysgwyr
- Y dysgwyr yn arwain y dysgu
- Dyfalbarhad a gwytnwch
- Adfyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd

**Sgiliau Cymraeg**

## Y cynnydd cyffredinol mewn Addysgeg (ym mhob gwers)

Sylwadau gwerthusol a chrynodol ynghyd ag enghreifftiau o ddysgu ac addysgu.

*Rydych yn dechrau sefydlu perthynas effeithiol gyda'r holl ddosbarthiadau ond mae angen i chi ddysgu enwau'n gyflym - gwnewch hyn yn darged cyfredol parhaus.*

*Mae'ch cynllunio yn gydwybodol ac yn dechrau gwahaniaethu trwy ganiatáu i'r disgyblion ddewis cwestiynau o'r gwerslyfr (e.e. gwers blwyddyn 9 ar 12/11). Fodd bynnag, mae angen mwy o ofal ar y dilyniant o wers i wers.*

*Nid yw eich amcanion dysgu yn ddigon penodol/clir. Mae hyn yn arwain at ddiffyg eglurder wrth gyflwyno'r deunyddiau.*

*Mae angen ichi ofyn am dawelwch ac aros am dawelwch wrth gyflwyno. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at ddechreuad gwael i wersi. Mae yna nifer sydd ddim yn gwrando. Rhaid i chi wirio eu bod yn deall beth sydd angen i'w wneud.*

*Mae eich dealltwriaeth o fathemateg yn dda ac rydych yn barod wedi dod yn adnabod cynnwys y fanyleb TGAU yn dda – da iawn chi.*

## Cynnydd y dysgwr

Crynhowch gynnydd pob dysgwr dros amser ym mhob gwers. Rhowch sylwadau ar yr holl ddosbarthiadau, unigolion a grwpiau.

*Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r dysgwyr wedi gwneud cynnydd boddhaol.*

*Mae rhai disgyblion, y rhai sy'n gallu gweithio'n annibynnol a chyrhaeddwyr uwch, yn gwneud cynnydd da ond mae angen mwy o gefnogaeth ar y cyrhaeddwyr isaf ac yn aml nid ydynt yn gwybod beth i'w wneud nesaf a sut i ddechrau tasg.*

*Roedd y gwaith ar reolau ongl ym mlwyddyn 8 yn fwy llwyddiannus gan fod y tasgau'n glir, roedd y disgyblion yn gallu adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu cwblhau'r deunyddiau estynedig.*

*Nid yw gwaith rhif blwyddyn 7 yn ddigon heriol – meddyliwch yn ôl am yr hyn a welsoch yn yr ysgol gynradd.*

A oes angen cefnogaeth cynyddol ar yr AC i symud ymlaen? [ ]

## Y ffocws (y cytunwyd arno cyn arsylwi)

Gweler y llawlyfr

*Rhowch ddechreuad cryno i'r wers ac aros am dawelwch*
*Cyflwynwch y brif dasg yn glir ochr yn ochr â'r amcanion dysgu*

## Arsylwi Gwersi

Dadansoddwch ddigwyddiadau arwyddocaol, gweithgareddau a chynlluniau sy'n berthnasol i'r ffocws y cytunwyd arno. Cyfeiriwch at ddysgu.

*Roedd y cyflwyniad yn well ac mae'n dechrau bod yn effeithiol. Rydych yn awr yn gofyn am dawelwch ac rydych yn aros gan amlaf ond mae angen i chi ddilyn hynny trwy ddweud da iawn wrth y rhai sy'n dawel.*

*Mae'r cyflwyniad yn parhau i fod yn rhy hir – defnyddiwch lawer llai ar PowerPoint.*

*Gwyliwch y fideo o'r wers i ddadansoddi pryd oeddech chi'n llwyddiannus a phryd na wnaethoch chi aros am sylw'r disgyblion.*

*Mae eich esboniadau yn gliriach erbyn hyn – eich cam nesaf yw cael y disgyblion i egluro i'r dosbarth cyfan ac i'w gilydd. Meddyliwch am sut i gyfuno eich esboniad gyda chwestiynau i wirio eu dealltwriaeth a chysylltu'n fwy effeithiol â'r dysgu blaenorol.*

*Er enghraifft, roedd eich ysgogiad "Rhowch enghraifft o rif cysefin i mi" yn dda (roedd ymateb CP yn ddiddorol ac yn datgelu dealltwriaeth uchel!) ond gellid bod wedi ei ddilyn gan "Eglurwch beth yw ffactor" ac yna "Sut mae rhifau cysefin a ffactorau yn gysylltiedig?".*

*Mae eich amcanion dysgu/meini prawf llwyddiant yn eglur ar bapur ond nid ydych yn eu cyfleu'n effeithiol i'r disgyblion. Mae angen i chi egluro yn eich meddwl eich hun beth mae'r disgyblion am ei wneud (e.e. sut maen nhw'n mynd i ddechrau'r dasg) a dylech ganfod a yw'r disgyblion yn deall beth sydd angen iddyn nhw ei wneud nesaf drwy ofyn cwestiynau.*

*Yn y wers hon, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion ar dasg am y wers gyfan*

*Ni wnaeth CP symud ymlaen – mae hi eisoes yn gwybod sut i ffactorio defnyddio rhifau cysefin. Rhaid i chi osod tasgau estynedig i'r rhai sydd eisoes wedi deall. EJ angen help ychwanegol gyda darllen.*

## Ymateb i dargedau blaenorol

Dylid seilio'r crynodeb ar yr uchod gan gynnwys ymatebion a welwyd mewn gwersi eraill

- *Mae eich eglurhad yn gwella ond mae angen ei fireinio ymhellach.*
- *Mae'r gwahaniaethu yn anghyson ac mae angen ei gysylltu â dadansoddi ac adfyfyrio ar waith blaenorol.*

## Targedau

I'w drafftio **gyda'r** hyfforddai ac nid **ar ran** yr hyfforddai.

- *Cynlluniwch gwestiynau ac ysgogiadau i gefnogi eich cyflwyniad*
- *Cynlluniwch dasgau ar sail cyrhaeddiad blaenorol.*
- *Gadewch i'r disgyblion wybod pan fyddant yn gwneud y peth iawn (ymddygiad).*

| Roedd y wers a arsylwyd: | yn gynrychiadol | ddim mor effeithiol ag arfer | yn fwy effeithiol nag arfer | **Safonwr** |
|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad myfyriol ar yr addysgu a'r dysgu gan yr AC**

| **Y Cynnydd mewn Addysgeg** (200-300 o eiriau) Rhoi sylw arbennig i dargedau'r wers a arsylwyd. |
|---|
| |
| **Y camau nesaf** (100 gair) Yr hyn sydd angen i chi ei wneud i wella, gan ddefnyddio'ch targedau newydd yn ffocws |
| |
| **Safonau a chyfeiriadau sy'n ymwneud ag addysgeg** Cysylltwch y rhain â'ch camau nesaf |
| |

**Llanwch y ffurflen a'i llwytho i'r Pasbort Dysgu Personol (PDP).Atodwch ddogfennau perthnasol eraill, gan gynnwys cynlluniau gwersi, deunyddiau a thystiolaeth o'r hyn a ddysgodd y disgyblion.**